



Embargo tan 10AM DDYDD SUL 14 Chwefror 2021

CYHOEDDI ENILLWYR HEARTS FOR THE ARTS 2021

- **GWOBRAU BLYNYDDOL YN CYDNABOD ARWYR DI-GLOD AWDURDODAU LLEOL Y DU, WEDI'U CYFLWYNO GAN YR YMGRYCH GENEDLAETHOL DROS Y CELFYDDYDAU MEWN PARTNERIAETH Â CULTURE COUNTS; Y GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL; THRIVE; UK THEATRE; CELFYDDYDAU GWIRFODDOL CYMRU, A CHYNGOR GWEITHREDU GWIRFODDOL CYMRU.**
- **GWOBRAU WEDI'U BEIRNIADU GAN FFIGURAU PROFFIL UCHEL YN Y CELFYDDYDAU A'R GWYDDORAU: **LE GATEAU CHOCOLAT, HELEN CZERSKI, MARIELLA FROSTRUP, PAUL HARTNOLL, ADRIAN LESTER CBE, FRANCESCA MARTINEZ, PETRA ROBERTS** A CHADEIRYDD YR YMGRYCH GENEDLAETHOL DROS Y CELFYDDYDAU **SAMUEL WEST**.**
- **MAE GŴYL AML-GELF AR-LEIN, RHAGLEN RADIO SY'N DATHLU DISGNYDDION CENHEDLAETH WINDRUSH, AC YMDRECHION I WRTHSEFYLL TLODI DIGIDOL YN WANDSWORTH I GYD WEDI CAEL EU CYDNABOD GAN Y GWOBRAU ELENI.**
- **CYFLWYNIR Y GWOBRAU GAN SAMUEL WEST A BEIRNIAID GWADD DETHOL YN SEREMONI WOBROWYO DDIGIDOL HEARTS FOR THE ARTS A GYNHELIR GAN Y GYMDEITHAS LLYWODRAETH LEOL DDYDD MERCHER 3^{YDD} MAWRTH AM 3PM.**

Cyhoeddwyd yr enillwyr ar gyfer **Gwobrau blynyddol Hearts for the Arts 2021 yr Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau**. Mae'r gwobrau'n dathlu arwyr di-glod Awdurdodau Lleol sy'n hyrwyddo'r celfyddydau er gwaethaf pob dim.

Derbyniwyd enwebiadau o bob rhan o'r DU ar gyfer pob un o'r tri chategori o wobrau. Er gwaethaf y caledi anhygoel a wynebodd Awdurdodau Lleol yn 2020, mae'r gwobrau eleni wedi gweld yr NCA yn derbyn y nifer uchaf erioed o enwebiadau, wrth i gymunedau lleol droi at y celfyddydau am gysur, cryfder a chysylltedd yn ystod y pandemig.

Derbyniwyd cynifer o enwebiadau cryf yn y Categori Celfyddydau Gorau, cafodd tri enillydd eu dewis:

Yr enillwyr yw:

- **Prosiect Celfyddydau Gorau: N17 (Cyngor Haringey).** Rhaglen radio a grëwyd mewn partneriaeth gan fyfyrwyr Harris Academy Tottenham, Kick it Out, Threads Radio, Cyngor Haringey, RoughHouse Theatre a'r dramodydd, Dougie Blaxland.
- **Prosiect Celfyddydau Gorau: Create & Learn PlayKits (Gwasanaeth Celfyddydau Bwrdeistref Wandsworth, Llundain).** Cydweithiodd sefydliadau creadigol Wandsworth â Chyngor Wandsworth i wneud a dosbarthu dros 3000 o becynnau o ddeunyddiau a gweithgareddau creadigol i blant rhwng 6-10 oed yn yr angen mwyaf.
- **Prosiect Celfyddydau Gorau: Arts E-Live (Cyngor Dosbarth Mole Valley).** Gŵyl celfyddydau gymunedol o dros 50 o ddigwyddiadau ym meysydd cerddoriaeth, theatr, barddoniaeth, ysgrifennu creadigol, digwyddiadau plant, celf stryd, crefft, gwneud ffilmiau a dawns.

- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Gweithiwr mewn Awdurdod Lleol neu Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol: Andy Dawson (Inspire Youth Arts).** Yn ei rôl fel Rheolwr Gwasanaeth, mae Andy wedi cynllunio'n strategol a sicrhau cyllid i ddarparu siwrneiau creadigol gwych i bobl ifanc ledled Swydd Nottingham.
- **Hyrwyddwr Celfyddydau Gorau - Cyngorydd: Y Cyngorydd Janet Emsley (Cyngor Bwrdeistref Rochdale)** am ei chefnogaeth gyson ac egniol i'r celfyddydau yn Rochdale.

Roedd y panel beirniaid fel a ganlyn:

- **Le Gateau Chocolat**, artist drag a pherfformiwr cabaret
- **Helen Czerski**, ffisegydd, eigionegydd, cyflwynydd teledu
- **Mariella Frostrup**, newyddiadurwr a darlledwr
- **Paul Hartnoll**, cerddor, cyfansoddwr, sylfaenydd Orbital
- **Adrian Lester CBE**, actor a chyfarwyddwr
- **Francesca Martinez**, digrifwr, awdur, actores
- **Petra Roberts**, Rheolwr Datblygu Diwylliannol, Cyngor Hackney (enillwyr 2020 ar gyfer [Gŵyl Cenedlaethau Windrush](#))
- **Samuel West**, actor, cyfarwyddwr, Cadeirydd yr Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau

Dywedodd **Samuel West**, yr actor, cyfarwyddwr a Chadeirydd yr Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau:

"Mewn byd lle mae angen dirfawr am newyddion da, gallwn nawr ganmol ein henillwyr Hearts for the Arts 2021 i'r cymylau. Wedi'u hamgylchynu gan golled, gwahaniad ac unigrwydd, mae'r bobl hyn, a'r prosiectau hyn yn dangos y llawenydd a'r cysur y gall cyngorau ac ymddiriedolaethau eu cynnig pan fyddant yn rhoi celf a chreadigrwydd yng nghanol bywyd cymunedol.

Ni allaf wella ar fynegiant un o'n beirniaid, yr artist cabaret Le Gateau Chocolat:

"Roedd yn foddhaus iawn gwybod bod y mathau hyn o bobl yn cerdded yn ein plith yn y celfyddydau. Rwy'n teimlo'n hynod ostyngedig wrth weld eu hymdrechion a'u cyfraniadau i'w cymunedau."

Roedd dewis enillwyr eleni yn anodd iawn - mae heriau COVID yn golygu bod unrhyw ymdrech creadigol yn haeddu cael ei gwobrwyo a bydd wedi dod â chysur mewn ffyrdd mawr a bach. Ond mae ein henillwyr wedi profi'n benodol ddefnydd a phwysigrwydd celf i fywydau pobl, a gobeithwn y byddant yn parhau i wneud hynny. Rhaid peidio â chaniatáu i'r mathau hyn o brosiectau farw.

Gwobrau Hearts for the Arts yw ein ffordd ni o ddweud diolch, a daliwch ati - mae eich angen nawr yn fwy nag erioed!"

Gan barhau â hyn, dywedodd y Cyngorydd Gerald Vernon-Jackson, Cadeirydd Bwrdd Diwylliant, Twristiaeth a Chwaraeon y Gymdeithas Llywodraeth Leol:

"Llongyfarchiadau i holl enillwyr y gwobrau hyn, a'r rhai a gyrhaeddodd y rhestr fer.

"Ar ôl blwyddyn mor anodd, mae'n wych gweld cyngorau'n parhau i ddefnyddio ffyrdd arloesol i ddod â chymunedau ynghyd, tacllo arwahanrwydd, cefnogi canlyniadau addysgol a chyfoethogi bywydau eu preswylwyr pan oedd ei angen arnynt fwyaf.

“Er gwaethaf heriau cyllidebol difrifol, cyngorau yw un o’r buddsoddwyr cyhoeddus cenedlaethol mwyaf mewn diwylliant, gan wario dros 1bn bob blwyddyn ac mae’n hynod ysbrydoledig clywed y straeon hyn o lwyddiant a dyfalbarhad wrth hyrwyddo’r celfyddydau.”

Mae seremoni Gwobrau Hearts for the Arts CLIL yn cael ei chynnal yn rhithwir rhwng 3-4pm ddydd Mercher 3 Mawrth. Mae lleoedd yn gyfyngedig, [felly cadwch eich lle nawr.](#)

Mae'r Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau yn cyflwyno Gwobrau Hearts for The Arts bob blwyddyn. Cyflwynir y gwobrau gan yr Ymgyrch mewn partneriaeth â [Culture Counts](#); [y Gymdeithas Llywodraeth Leol](#); [Thrive](#); [UK Theatre](#); [Celfyddydau Gwirfoddol Cymru](#), a [Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru](#).

I gael rhagor o wybodaeth am yr enwebeion ar y rhestr fer, ewch i: <https://forthearts.org.uk/heart-for-the-arts-2021-shortlist-announced/>.

Nodiadau i olygyddion:

Mae'r **Ymgyrch Genedlaethol dros y Celfyddydau (NCA)** yn elusen ac yn sefydliad ymgyrchu annibynnol, sy'n cael ei rhedeg gan fwrdd o ymddiriedolwyr gwirfoddol. Maent yn ymgyrchu dros ragor o fuddsoddiad yn y celfyddydau, i wella bywydau pawb; ac maent yn dathlu'r rhai sy'n gwneud i hynny ddigwydd. forthearts.org.uk

Mae adroddiad diweddar **CLIL** "[Leisure Under Lockdown](#)" yn darparu astudiaethau achos pellach ar sut mae gwasanaethau diwylliant a hamdden wedi cefnogi cymunedau yn ystod COVID-19. Mae [‘Creative Places: supporting your local creative economy’](#) yn amlinellu'r cyfraniad y gall y sector creadigol ei wneud i adfer o'r pandemig.

National Campaign
FOR THE ARTS

In Partnership with:



-Diwedd-